



Tasg 3

Byw heb dechnoleg!

1. Mae'r pennaeth yn dweud:

"Wel, mae llawer o bobl ifanc yn treulio gormod o amser ar y ar y cyfrifiadur ... ar y ffôn symudol ac ati. Dydyn nhw ddim yn mynd allan i gerdded. Dydyn nhw ddim yn mynd allan i wneud chwaraeon ar ddydd Sadwrn. Dydyn nhw ddim yn mynd allan gyda ffrindiau. Dydyn nhw ddim yn mynd allan i siopa achos maen nhw'n siopa ar y we – a dydy rhai ddim yn darllen. Mae hyn yn broblem."

- a. Ydy e'n gywir? Ydy e'n anghywir?

**Dw i'n meddwl ei fod e'n ...
achos ...**

- b. Ydy hyn yn wir amdano chi?

**Ydy, mae hyn yn wir
amdana i achos ...**

**Nac ydy, dydy hyn ddim yn
wir amdana i achos ...**

Atebwch y cwestiwn gan roi rhesymau.

2. Mae'r ysgol yn rhoi her i chi – byw heb gyfrifiadur am benwythnos.


Beth ydych chi'n feddwl o'r her?

Ydych chi'n gallu byw heb gyfrifiadur am benwythnos?

Ysgrifennwch am hyn. Defnyddiwch wybodaeth o Dasg 1 i'ch helpu chi.

Trafodwch hyn mewn grŵp.

Dyma ychydig o help i chi.



Beth wyt ti'n feddwl o'r her?
Dw i'n meddwl bod yr her yn ...
Dw i'n meddwl ei bod hi'n ...

Wyt ti'n gallu byw heb gyfrifiadur am benwythnos?
Beth wyt ti'n mynd i wneud heb gyfrifiadur?
Wyt ti'n mynd i fwynhau?
Wyt ti'n treulio gormod o amser ar y cyfrifiadur fel arfer?

Geirfa	
her	challenge
treulio	to spend (time)

